

## Merched y Wawr – Cangen Llannau'r Tywi - Rhagfyr 2018

'Roedd yn braf croesawu pobl ifanc i Neuadd Llanybri ar gyfer ein cyfarfod mis Rhagfyr. Estynnodd Ann Thomas, ein llywydd, groeso cynnes i'r cyfeilydd a'r athro canu, Geraint Rees (Rama, Llandyfaelog), a phump o dalentau ifanc Cwm Gwendraeth a'r cylch. Cafwyd noson hwylus iawn yn eu cwmni. 'Roeddent yn gyfarwydd â pherfformio ac wedi cael llwyddiant yn eisteddfodau'r ardal a'r Urdd.

Canodd y tri ieuengaf, Erin Gibbon, a Llewelyn Owen o ysgol Mynydd-y-Garreg, a Lois Dafydd o ysgol Llangynnwr, yn unigol a gyda'i gilydd. Clywsom ganeuon Rhys Jones a Robot Arwyn yn ogystal â rhai llai cyfarwydd. 'Roedd yn amlwg yn eu perfformiadau bod y tri wrth eu bodd yn canu ac roedd y Garol Calypso yn ffefryn i nifer.

Cafwyd perfformiadau graenus a swynol iawn gan y ddau aelod hŷn. Canodd Lili Mai o Ysgol Maes-y-Gwendraeth y gân sol-ffa a chân allan o sioe gerdd, a Luke Rees o ysgol Bro Myrddin, yn dangos ei ddawn arbennig wrth ganu'r piano. Mi fydd ei berfformiad gwych o gân 'Rag' Scott Joplin, yn aros yn y cof am beth amser. Cafwyd deuawd hyfryd ganddynt o glasur Ryan Davies, 'Pan Fo'r Nos yn Hir'.

Diolchodd y llywydd i bawb am noson gartrefol o safon uchel iawn. Dymunwyd yn dda i'r bobl ifanc yn y dyfodol, a braf oedd clywed bod rhai â'u rhagolygon ar fynd i Golegau Cerdd a pharhau yn y byd canu a pherfformio. Ar ddiwedd y noson, cafodd yr aelodau gyfle i gymdeithasu gyda'r rhieni a'r teuluoedd dros banded a chacen. Diolchwyd i bawb am ddod.

Cyfle i gadw'n heini a chael tipyn o sbri, sydd wedi ei drefnu ar gyfer prynhawn Mercher, Ionawr 16eg, pan fyddwn yn cwrdd yn y Ganolfan Bowlio Deg yn Nhre Ioan.